Atodiad Q - Ymlaen i gynllun gweithredu i Biosffer Dyfi 18 Ionawr 2008

Sut allai prosiectau a diddordebau sector gael eu datblygu, eu cydlynu a'u bwydo i'r Cydbwyllgor Ymgynghorol? Gobeithir y byddai busnesau a'r gymuned yn arwain hyn, yn hytrach na'r sector cyhoeddus. Un ffordd o ddod â phobl at ei gilydd yw trwy "Fforymau" thematig, fel y soniwyd amdano yn atodiad "Siart Trefniadaeth".

Ni ffurfir Fforymau Biosffer oni bai bod y sector cysylltiedig yn gweld bod hynny o fantais iddynt. Pan yn bosibl, byddent yn datblygu o fentrau sy'n bodoli eisoes (e.e. Twristiaeth ac Addysg Gydol Oes?) Fel arall, gallai pobl gael eu hapwyntio gan y digwyddiad blynyddol neu'r Bwrdd Ymgynghorol i "feithrin" y sector ac i weithio i gryfhau cyfranogiad.

Gwneir awgrymiadau cychwynnol isod, ond ydynt wedi'u bwriadu i fod yn derfynol nac yn drwyadl. Nid yw'r gweithredoedd yn y tabl yn cynnwys cynllun gwaith y cytunwyd arno, ac yn sicr, nid yw'r rhestr yn un drwyadl. Mae'r rhai sy'n newydd neu a fyddai'n cael eu gwella gan y Biosffer yn ymddangos mewn **print trwm**.

Gallai fforymau helpu i ddatblygu syniadau am brosiectau, dynodi adnoddau i'w gweithredu ac/neu i fonitro effaith y Biosffer ar eu sector Byddai disgwyl iddynt fabwysiadu dull holistig er mwyn sicrhau integreiddiad gyda'r Biosffer yn ei chyfanrwydd. Byddai gan fforymau o'r fath raddau amrywiol o ffurfioli a fyddai'n newid gydag amser. Byddai'n bosib cyfuno pynciau mewn nifer llai o fforymau nag a ddangosir yma.

Byddai'n bosibl i gynigion am brosiectau ddod oddi wrth fusnesau unigol neu sefydliadau cymunedol hefyd.

Fforwm	**'Meithrinwyr' neu ffocyswyr cysgodol**	**Cyfranogwyr posibl eraill**	**Amcanion perthnasol y Biosffer**	**Gallai'r cwmpas gynnwys**	**Gweithredoedd dangosol/mentrau**	**Canlyniadau dangosol**
Amaethyddiaeth, coedwigaeth a diwydiannau seiliedig ar dir	Undeb Amaethwyr Cymru, NFU Cymru	Canolfan Organig Cymru, IGER, LICC Bwyd-Amaeth, Will Lloyd Williams, CLA, Prosiect Pumlumon, Menter Trawsnewid	1, 3, 5, 7	Sut all ffermwyr fanteisio? Dyfodol ffermio lleol mewn amgylchedd carbon isel/ lleihad mewn olew	**Astudiaeth brandio bwyd; Rheoli cynefin /tir Prosiect Pumlumon creu prosiect Glaslyn /Bugeilyn; Gwaredu stoc marw'n lleol ac ecolegol?**	Incwm teulu amaethyddol Hunan-ddibyniaeth bwyd Rheoli cynefin
Twristiaeth a hamdden	PTCC/ ecodyfi	Busnesau yn cynnwys aelodau LyfiDyfi twristiaeth CC, 3xALl	1, 6, 7	Arbenigrwydd lleol, Ansawdd, Cysondeb	Marchnata, Cynllun Ansawdd Twristiaeth(IQM,) '**dod yn ganolbwynt twristiaeth**'	Gwariant twristiaeth Ymarfer busnes

Datblygu busnes	LICC Economi a Chludiant, A LI?	Siambrau Masnach Machynlleth & Aberdyfi, ecodyfi, busnesau 2xALl PA Rheolaeth a Busnes	1, 5, 7	Ynni adnewyddol, Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol, Diwydiannau creadigol, cefnogi a rhwydweithio, cynnyrch lleol ac ychwanegu at werth	**Peirianweithiau brandio generig**	Gwaith i bobl leol Ansawdd swyddi Economi lleoledig Busnesau Nwyddau Amgylcheddol & Gwasanaethau Clwstwr
Addysg Gydol Oes	Cynllun Braenaru (CSP +LICC)	3xAALl, Ysgolion, Hyfforddiant Powys, CAT	2, 3, 4, 6, 8, 9	Mynediad i addysg a hyfforddiant	Cynllun Braenaru	Pobl â mwy o sgiliau Hyfforddiant cefnogi strategaeth y Biosffer
Cynaladwyedd Amgylcheddol	Ecodyfi, CCGC	RSPB, Ymddiriedolaetha u Bywyd Gwyllt, CAT, Menter Trawsnewid	1, 2, 3, 6	Ymddygiad ac agwedd, Cynefin a bioamrywiaeth Newid hinsoddol	**Ôl-troed Dyfi,** Gwylwyr Gwastraff	Ôl-troed ecolegol, Gwarchod amgylchedd lleol Agweddau
Treftadaeth a Diwylliant	Bwrdd yr Iaith, Etifeddiaeth Dyffryn Dyfi	Ymddiriedolaeth y Tabernacl, Canolfan Owain Glyndŵr, Cân ar Dân, CADW, Mentrau Iaith, CFfI, Neuaddau pentref, Eglwysi a Chapeli	2, 4	Iaith Gymraeg, Amgylchedd adeiledig, Diwylliant cyfoes, “Adeiladu Pontydd”, Treftadaeth	Cynllun Gweithredu’r Iaith Gymraeg, **Archwiliad Diwylliannol**, **Gŵyl Afon, yn dathlu’r cyn-ddiwydiant gwlân,**	Defnyddio a dysgu Cymraeg Parchu’r gorffennol a’n gilydd
Cymunedau Cynaliadwy	CG/FfCLl, ecodyfi	Cludiant a Thai ALl, Canolfan Integredig i Blant (ICC), Canolfannau cymunedol, Trac	1, 6	Iechyd a lles, Tai, Teithio, Cyfranogiad, Gweithgaredd cymunedol,	Mentro Allan, **Ardal Adnewyddu Tai**, Taflen Teithio Dyfi, Canolfan Integredig i Blant	Tai i bobl leol, Lles, Opsiynau teithio cynaliadwy